OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 48 (Cy.13)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Ionawr 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Ionawr 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Gan fod y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ac yntau wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1A) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Mehefin 2009 ar adolygiad o ran o'r ffin rhwng siroedd wedi'u cadw Powys a Morgannwg Ganol, ynghyd â'r cynigion a luniwyd gan y Comisiwn ar hynny;

A bod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i'r cynigion hynny heb addasiadau;

A bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) a (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map sy'n dwyn y teitl "Map o Orchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010".

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**Newid yn ardaloedd siroedd wedi'u cadw**

**3.** Trosglwyddir y rhan honno o sir wedi'i chadw Powys a ddangosir â chroeslinellau ar y map ffiniau i sir wedi'i chadw Morgannwg Ganol.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Ionawr 2010


## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) ("Deddf 1994") yn darparu y bydd y siroedd yng Nghymru fel yr oeddynt yn union cyn pasio Deddf 1994 yn parhau mewn bodolaeth at ddibenion penodol. Fe'u gelwir yn "siroedd wedi'u cadw".

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) a (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi eu heffaith, heb addasiadau, i gynigion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a adroddodd ym mis Mehefin 2009 ar ei adolygiad o ran o ffin siroedd wedi'u cadw Powys a Morgannwg Ganol. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newid i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Orchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009 (O.S. Rhif 889 (Cy.78)) yn ardal Pontsticill, rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sir wedi'i chadw Morgannwg Ganol a Sir Powys yn sir wedi'i chadw Powys.

## Map o Orchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2009.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

206.09-10 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru